Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

EICH UNDEB MYFYRWYR
Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant
YOUR STUDENTS' UNION
Trinity Saint David Students' Union

# Cod Ymarfer ynghlych Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant

2016/17

**Cod Ymarfer Undeb y Myfyrwyr**

## 1. Cyflwyniad

Noda Rhan II o Ddeddf Addysg 1994 ei bod hi'n ofynnol ar gorff llywodraethu'r Brifysgol ( a elwir yn y ddogfen hon yn Gyngor y Brifysgol) i gymryd camau i sicrhau'n rhesymol fod Undeb y Myfyrwyr sy'n gweithredu yn ei sefydliad yn gwneud hynny mewn modd teg a democrataidd a'i fod yn atebol am ei gyllid.

Er mwyn dangos sut y bydd yn gwneud hyn, mae gofyn i Gyngor y Brifysgol baratoi, anfon, a lle bo angen diwygio Cod Ymarfer ynghylch y modd y bydd yn cyflawni'r ddyletswydd hon. Noda'r adrannau canlynol y modd y mae Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant a Chyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn bodloni'r gofynion penodol a geir ym Mharagraff 22, Rhan II, Deddf Addysg 1994[1].

## 2. Cyfansoddiad

Yn unol â gofynion y Ddeddf, bydd gan Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant gyfansoddiad ysgrifenedig a gymeradwyir gan Gyngor y Brifysgol, ac a adolygir ar ddiwedd cyfnodau na fyddant yn hwy na phum mlynedd. Bydd hwn ar gael i'w weld ar gais yn swyddfeydd Undeb y Myfyrwyr.

## 3. Aelodaeth

Caiff myfyrwyr yr hawl i (i) beidio â bod yn aelod o'r Undeb, neu (ii) yn achos corff cynrychiadol nad yw'n gymdeithas, arwyddo na fynnant gael eu cynrychioli ganddo.

Daw pob myfyriwr a gofrestrir yn llawn ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn aelod o'r Undeb yn syth a chaiff fanteisio ar bob un o'i wasanaethau. Fodd bynnag, bydd gan fyfyrwyr gyfle i eithrio. Gallant wneud hynny trwy roi rhybudd ysgrifenedig i Brif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr yn unol â'i gyfansoddiad a'i reoliadau.

Ni fydd unrhyw fyfyrwyr sy'n arfer eu hawl i beidio â bod yn aelod o dan anfantais annheg, ond bydd modd iddynt fanteisio ar wasanaethau'r Undeb yn unol â'i reoliadau. Fodd bynnag, ni chânt gymryd rhan na phleidleisio mewn cyfarfodydd democrataidd na phleidleisio mewn unrhyw etholiadau na phleidleisiau. Ni chânt sefyll yn ymgeiswyr, na dal swydd yn yr Undeb na chymryd rhan yn unrhyw un o Glybiau, Cymdeithasau na Phwyllgorau'r Undeb.

## 4. Etholiadau

Penodir Swyddogion Sabothol yr Undeb ar sail pleidlais gudd, lle mae gan yr holl aelodau hawl i bleidleisio yn ôl y gofyn o dan y Ddeddf ac yn unol â Memorandwm Undeb y Myfyrwyr ac Erthyglau Cysylltiad a rheoliadau. Bydd Swyddog Adroddol allanol a'r Pro Is-Ganghellor ar gyfer Profiad Myfyrwyr (neu enwebai) yn goruchwylio'r trafodion. Ymdrinnir ag unrhyw gwynion sy'n codi o ganlyniad i etholiadau yn unol â rheoliadau'r Undeb. Bydd hyn yn cynnwys cam olaf a fydd yn atgyfeirio cwynion at y Pro Is-Ganghellor Cysylltiol (neu enwebai) ar gyfer gweithredu/ penderfyniad pan fo angen.

Rhoddir gwybod am y weithdrefn ar gyfer yr etholiadau hyn i Gyngor y Brifysgol a fydd yn craffu arnynt, a hynny trwy gyfrwng ei Bwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, er mwyn i'r Cyngor ei fodloni ei hun y cynhelir yr etholiadau'n deg ac yn gywir. Bydd Undeb y Myfyrwyr yn llunio rheolau etholiadau ysgrifenedig a chanllawiau i ymgeiswyr bob blwyddyn, a'u cyhoeddi ar y wefan hon.

Ni chaiff person ddal un o swyddi sabothol yr Undeb, nac un o swyddi etholedig cyflogedig yr undeb, am fwy na dwy flynedd.

## 5. Cyllid

Cyflwynir cyllideb yr Undeb i Bwyllgor Sefydlog Adnoddau Canolog y Senedd ar gyfer ystyriaeth gychwynnol gan y Pro Is-Ganghellor Cyllid a Chynllunio yn ystod cylch cyllideb arferol y Brifysgol. Bydd y

[1] Sef 'y Deddf' o hyn allan.

Pwyllgor Adnoddau Canolog yn gyfrifol am, gymeradwyo cyllideb yr Undeb.  Cynhelir y gwaith parhaus o fonitro gwariant yr Undeb trwy roi gwybod yn rheolaidd am Archwiliad Cyngor y Brifysgol a’r Pwyllgor Rheoli Risg.

Cyhoeddir adroddiadau Undeb y Myfyrwyr trwy wefannau Tŷ’r Cwmnïau a’r Comisiwn Elusennau yn rhan o adroddiadau statudol Undeb y Myfyrwyr. Cyhoeddir hefyd yr adroddiadau ariannol sydd wedi eu harchwilio ar wefan yr Undeb. Fe’u cyflwynir hefyd at ddibenion craffu arnynt gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg Cyngor y Brifysgol.

Bydd y cyfrifon yn rhestru’r sefydliadau allanol y gwnaeth yr Undeb roddion atynt yn y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad, yn ogystal â manylion y rhoddion hyn.

### 6. Dyrannu adnoddau

Bydd gweithdrefn yr Undeb ar gyfer dyrannu adnoddau i grwpiau neu glybiau yn un deg ac wedi’i nodi’n ysgrifenedig ac ar gael trwy wefan Undeb y Myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu proses apeliadau glir.

### 7. Ymlyniadau

Os bydd yr Undeb yn penderfynu ymlynu wrth sefydliad allanol, bydd yn rhoi gwybod am y penderfyniad hwn ar ei wefan gan roi enw’r sefydliad, unrhyw ffioedd tanysgrifio (neu debyg) a dalwyd neu a gynigiwyd i’w dalu, ac unrhyw roddion a wnaed neu a gynigiwyd i’r sefydliad.

Bydd manylion ymlyniadau newydd a pharhaus gyda sefydliadau mewn adroddiadau blynyddol gan gynnwys manylion ar y ffioedd tanysgrifio (neu debyg) a delir, ac unrhyw roddion a wneir.

Cyhoeddir y wybodaeth hon ar wefan yr Undeb a rhoddir gwybod amdano i Archwiliad Cyngor y Brifysgol a’r Pwyllgor Rheoli Risg ynghyd â’r cyfrifon blynyddol sydd wedi eu harchwilio.

Adolygir yr ymlyniadau wrth sefydliadau allanol gan aelodau’r Undeb o leiaf bob blwyddyn ac yn unol â Memorandwm ac Erthyglau Cysylltu.

Os bydd y Brifysgol yn cwestiynu un o ymlyniadau’r Undeb, penderfynir a ddylai’r ymlyniad barhau trwy bleidlais gudd lle bydd gan bob un o aelodau'r Undeb hawl i gefnogi.

### 8. Cwynion

Rhaid i fyfyrwyr sy’n anfodlon ar eu hymwneud â’r Undeb, neu sy’n honni iddynt fod o dan anfantais annheg am iddynt arfer eu hawl i beidio â bod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr neu gorff cynrychiadol roi gwybod am eu pryder i Brif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr yn unol â’i reoliadau.  Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer atgyfeirio at y Pro Is-Ganghellor Profiad Myfyrwyr (neu enwebai) i ymchwilio i gwynion a rhoi gwybod amdanynt.

Ymdrinnir â chwynion yn brydlon ac yn deg.  Lle cadarnheir cwyn, cymerir pob cam rhesymol i gyflawni adferiad effeithiol.

### 9. Rhoi Gwybod i Fyfyrwyr

Bydd Cyngor y Brifysgol yn tynnu sylw’r myfyrwyr o leiaf unwaith y flwyddyn at y Cod Ymarfer hwn trwy gyfeirio ato a chyhoeddi’r Cytundeb Perthynas rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac Undeb Myfyrwyr Y Drindod Dewi Sant.

Tynnir sylw myfyrwyr hefyd at unrhyw gyfyngiad ar weithgareddau’r Undeb o dan y gyfraith sy’n ymwneud ag elusennau, ac unrhyw weithgareddau neu ymddygiad gan yr Undeb sy’n berthnasol i ddarpariaeth unrhyw God Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986) o leiaf unwaith y flwyddyn.